

## Cyllid cyfalaf ychwanegol addysg uwch 2024-25

**Dyddiad:** 11 Mawrth 2025

**Cyfeirnod:** Medr/2025/01

**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru

**Rhagor o wybodaeth:** [buddsoddiadamonitro@medr.cymru](mailto:buddsoddiadamonitro@medr.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu manylion y sail a fydd yn cael ei defnyddio i ddyrannu cyfalaf ychwanegol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2024-25, yr wybodaeth sy'n ofynnol oddi wrth sefydliadau a'n dull o fonitro.



## Cefndir

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cyllid cyfalaf ychwanegol o £18.5m ar gael i'w ddyrannu ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi blaenoriaethau strategol gan gynnwys Sero Net/Datgarboneiddio, gwella cyfleusterau a symud yr agenda ddigideiddio yn ei blaen.

## Sail dyraniadau cyllid cyfalaf

2. Bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar ddull fformiwläig. Gan y dylai'r cyllid gael ei ddefnyddio, yn rhannol o leiaf, i gefnogi dysgu ac addysgu, profiad myfyrwyr a'r seilwaith ar gyfer myfyrwyr, mae'r dyraniadau wedi cael eu pennu yn seiliedig ar niferoedd myfyrwyr. Mae nifer y myfyrwyr mewn sefydliad yn ddirprwy rhesymol ar gyfer faint o ystâd a chyfleusterau y mae eu hangen. Mae'r dull hwn yn gyson â dyraniadau cyfalaf blaenorol a weinyddwyd gan CCAUC.
3. Y niferoedd myfyrwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer y dyraniad cychwynnol yw Myfyrwyr Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALI) Cofnod Myfyrwyr HESA ar gyfer pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrwyr yn hanu ohoni yn seiliedig ar flwyddyn academiaidd 2022/23. Mae hon yr un sail ag a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r cylch blaenorol o gyllid cyfalaf.

## Cymhwyso isafswm dyraniad cyllid

4. Er mwyn darparu cyllid cyfalaf a fydd yn galluogi'r holl sefydliadau i fuddsoddi mewn prosiectau a fydd yn cael effaith gynaliadwy, fe gymhwyswyd isafswm dyraniad o £1,387,500. O ystyried ei hystâd gyfyngedig yng Nghymru, bydd isafswm o 50% (£693,750) wedi ei bennu fel trothwy ar gyfer y Brifysgol Agored i gyfrannu at brosiectau a fydd o fudd i fyfyrwyr Cymru.
5. Mae'r cyllid ar gyfer sefydliadau lle gwnaeth y dyraniad gwreiddiol yn seiliedig ar eu myfyrwyr CagALI gwympto islaw'r gwerth hwn wedi cael ei gynyddu i'r swm hwn ac mae'r myfyrwyr CagALI ar gyfer y sefydliadau hynny wedi cael eu tynnu allan o'r cyfrifiad wedyn. Mae gweddill y cyllid sydd ar gael wedi cael ei ddyrannu rhwng y sefydliadau eraill yn seiliedig ar y myfyrwyr CagALI sy'n weddill yn y cyfrifiad.
6. Caiff y dyraniadau canlyniadol ar gyfer pob sefydliad eu darparu yn **Atodiad A**.

## Cadarnhad o'r gallu i wario

7. O ystyried y ffrâm amser gyfyngedig i ddyrannu'r cyllid hwn, yn lle cynlluniau wedi eu cwmpasu'n llawn rydym yn disgwyl i sefydliadau gadarnhau trwy anfon e-bost i [buddsoddiadamonitro@medr.cymru](mailto:buddsoddiadamonitro@medr.cymru) eu bod yn gallu defnyddio eu dyraniad yn erbyn prosiectau perthnasol ym mlwyddyn ariannol 2024-25. Sylwer bod rhaid i'r rhain fod yn ddatblygiadau yng Nghymru (neu, yn achos digidol, prosiectau a fydd o fudd uniongyrchol i fyfyrwyr Cymru).

8. Pe bai sefydliad yn rhagweld na fydd yn gallu defnyddio ei ddyraniad llawn, dylai hysbysu Medr ar y cyfle cynharaf a bydd unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei ailddyrrannu i sefydliadau eraill trwy'r dull fformiwläig a ddisgrifiwyd yn flaenorol.

### **Monitro blynyddol**

9. Bydd ymarfer monitro'n cael ei gynnal yn 2025 ar ddyddiad addas (yn yr hydref mwy na thebyg) i sicrhau bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio fel a fwriadwyd ac i ddarparu diweddariad ar yr effaith y mae'r buddsoddiad wedi ei chael.
10. Bydd disgwyl i sefydliadau ddarparu dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf a manylu ar unrhyw brosiectau y mae'r cyllid wedi cyfrannu atynt.
11. Byddwn yn gofyn i sefydliadau ddarparu crynodeb ansoddol o'r effeithiau cadarnhaol y mae'r cyllid hwn wedi eu cael/yn eu cael ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r meini prawf a nodir uchod.

### **Amserlen**

12. Byddwn yn gofyn i ddarparwyr gadarnhau eu gallu i wario eu dyraniad llawn erbyn 19 Mawrth 2025.
13. Bydd Medr yn trefnu bod yr arian a ddyrennir yn cael ei dalu i sefydliadau ar ôl cael y cadarnhad uchod ac ar 20 Mawrth 2025.
14. Bydd y broses fonitro flynyddol yn digwydd yn 2025 ar ddyddiad addas.

### **Rhagor o wybodaeth**

15. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [buddsoddiadamonitro@medr.cymru](mailto:buddsoddiadamonitro@medr.cymru).

Trothwy £1,387,500

Yr Holl Fyfyrrwyr

Sefydliad	Niferoedd Myfyrrwyr a CagALI 2022/23		Dyraniadau pro rata i (£):	Canran a ddyrennir i bob sefydliad
	Nifer	CagALI	CagALI	CagALI
Prifysgol De Cymru		17,855	2,638,895	14%
Prifysgol Aberystwyth			1,387,500	8%
Prifysgol Bangor			1,387,500	8%
Prifysgol Caerdydd		28,015	4,140,325	22%
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant		12,600	1,861,787	10%
Prifysgol Abertawe		18,640	2,754,551	15%
Prifysgol Metropolitan Caerdydd		11,950	1,765,875	10%
Prifysgol Wrecsam			1,387,500	8%
Y Brifysgol Agored		7,960	1,176,067	6%
<b>Cyfanswm</b>		<b>97,015</b>	<b>18,500,000</b>	<b>100%</b>

Ffynhonnell: Cofnod myfyrrwyr HESA 2022/23

Niferoedd Myfyrrwyr nas defnyddiwyd yn y cyfrifiad: Poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrrwyr yn hanu ohoni.  
Niferoedd Myfyrrwyr CagALI a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad: Poblogaeth Sesiwn HESA, pob dull, lefel a gwlad y mae myfyrrwyr yn hanu ohoni.  
Sylwer bod gwerthoedd CagALI wedi cael eu talgrynnu yn dilyn eu defnyddio yn y cyfrifiadau.

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

[www.medr.cymru](http://www.medr.cymru)

2 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd  
CF10 4BZ

2 Capital Quarter  
Tyndall Street  
Cardiff  
CF10 4BZ



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**